# £4m wedi'i arbed o ganlyniad i waith arloesol cadwraeth ynni



Mae cynllun uchelgeisiol i leihau allyriadau carbon a chostau ynni'n sylweddol wedi cyrraedd carreg filltir o £4,000,000 mewn arbedion i Gyngor Gwynedd.

Ers 2010, mae'r Cynllun Rheoli Carbon wedi bod mewn lle fel rhan o ymrwymiad yr awdurdod lleol i leihau'r effaith y mae'n ei gael ar yr amgylchedd.

Diolch i gyfuniad o wahanol brosiectau, yn cynnwys gosod goleuadau effeithlon ar gyfer adeiladau a goleuadau stryd; prosiectau ynysu; ynni adnewyddol; gorchudd pyllau nofio; a nifer o dechnolegau arbed ynni ar gyfer offer TG, mae ôl-troed carbon wedi lleihau yn aruthrol o 34.5%, yn arbennig o fewn y meysydd canlynol:

- Goleuadau Stryd i lawr 45%
- Fflyd i lawr 17%
- Teithio Busnes i lawr 10%
- Ynni Adeiladau i lawr 39%

Yn ystod 2017, cynhyrchwyd 239 tunnell o allyriadau $CO_2$ y Cyngor (digon i lenwi 239 balŵn aer poeth) o ffynhonellau ynni adnewyddol fel paneli solar PV.

Ond yn ogystal â buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf, mae ffocws hefyd wedi bod ar newid ymddygiad, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth ar effaith newid hinsawdd er mwyn annog ymddygiad cyfeillgar i'r amgylchedd ehangach.



Er enghraifft mewn ysgolion, lle mae arbediad o dros chwarter wedi cael ei wireddu, mae'r Cynllun Sbarci a Fflic wedi bod yn allweddol yn hyrwyddo pwysigrwydd arbed ynni i ddisgyblion, yn y dosbarth ac adref.

Mae gweithio gyda staff Hamdden a rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth iddynt reoli defnydd ynni Canolfannau Byw'n Iach hefyd wedi helpu i arbed bron i 10% oddi ar eu hallyriadau carbon (carbon emissions).

Hyd yn hyn, mae £4,000,000 wedi ei arbed ar gostau refeniw, ac yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r cynllun wedi atal 185 tunnell o $CO_2$ rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer.

Ond mae'r awdurdod yn barod yn paratoi tuag at cyrraedd ei darged nesaf, sef lleihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet dros Amgylchedd: "Rydan ni'n hynod o falch o beth mae'r Cyngor wedi ei gyflawni hyd yn hyn fel rhan o'r cynllun arloesol hwn.

"Mae'r cynllun wedi caniatáu i Gyngor Gwynedd fod ar flaen y gad yng Nghymru o safbwynt lleihau allyriadau carbon yn ogystal â gwneud arbedion ariannol heb gael effaith negyddol ar bobl Gwynedd."

I arbed ynni (a chostau) adref, gallwch wneud pethau fel:

- chwilio am dariff gwell gan gyflenwyr
- diffodd offer a phlygiau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- diffodd goleuadau pan nad oes eu hangen
- defnyddio bylbiau ynni isel
- ystyried buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, fel paneli solar, tyrbinau gwynt ayyb
- ynysu eich cartref ac atal drafftiau

*Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Rheoli Carbon, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru a chwiliwch am 'Cynllun Rheoli Carbon'.*